# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

**ARAN:** Darpariaeth Amgen y Bont

**SWYDD:** Cynorthwyydd Cymorth Arbennig

**GRADD Y SWYDD:** GR04

**YN ATEBOL I:** Pennaeth, Darpariaeth Amgen y Bont

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Gan weithio ar draws CA3 a CA4, bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd roi cymorth i ddisgyblion ag anghenion anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD).

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Rhoi cymorth yn yr ystafell ddosbarth i ddisgyblion yn y Bont drwy ddefnyddio strategaethau ac adnoddau priodol.
- Addasu deunyddiau ac adnoddau yn unol ag anghenion disgyblion i hwyluso mynediad i'r cwricwlwm.
- Gyda hyfforddiant rhoi sylw i anghenion personol disgyblion a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, gan gynnwys cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth mewn argyfwng, cymorth meddygol ac anghenion lles a gweinyddu meddyginiaeth lle y bo angen.
- Herio a chymell disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-barch.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun i wella cymhwysedd yn y rôl.
- Helpu i oruchwylio disgyblion y tu allan i amser gwersi.
- Paratoi'r ystafell ddosbarth yn unol â chyfarwyddyd y staff addysgu.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Cymorth Arbennig

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh (NVQ) Lefel 2 ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu neu gyfwerth; neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Hyfforddiant Team Teach neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc â BESD neu ofalu amdanynt.<br>• Deall egwyddorion rheoli ymddygiad. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gallu dilyn cynllun dysgu gwahaniaethol.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu.<br>• Rheoli amser yn effeithiol a blaenoriaethu gwaith pan fo angen.<br>• Cymhwysedd o ran sgiliau sylfaenol rhifedd a llythrennedd. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm.<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |